**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Penderfynir ar gymorth tai i'r digartref gan Ran VII o Ddeddf Tai 1996 ("Rhan VII").

O dan adrannau 185(2), 185(3), 194 a 198 gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi:

1. dosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 sy'n gymwys ar gyfer cymorth tai o dan Ran VII,

2. disgrifiadau eraill o bersonau o wlad dramor sydd i'w trin yn anghymwys i gael cymorth tai o dan Ran VII,

3. y cyfnod hysbysu rhagnodedig sydd i'w roi gan awdurdod tai lleol:

   a). pan yw'n bwriadu peidio ag arfer ei ber i sicrhau bod llety ar gael i berson o dan adran 194 o Ddeddf Tai 1996, a

   b). pan yw'n bwriadu cyfeirio achos digartrefedd i awdurdod arall.

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 ("Rheoliadau Lloegr") yn darparu ar gyfer pob un o'r uchod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso sylwedd cyfreithiol darpariaethau Rheoliadau Lloegr i Gymru. Maent hefyd yn gwneud rhai diddymiadau canlyniadol.

Gwnaed y Rheoliadau drwy ddefnyddio'r Weithdrefn Frys ar 30 Mawrth 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Bydd yr Aelodau'n sylwi unwaith eto fod yr Offeryn hwn yn deddfu drwy gyfeirio at reoliadau Lloegr. Ar wahân i'r croesgyfeirio cynhenid y mae hyn yn ei olygu, nid oes i hyn unrhyw oblygiadau cyfreithiol anfanteisiol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997 a Rheoliad 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997, tra bod Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000 yn diddymu Rheoliadau 2 a 3 a Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny yn eu trefn. Deellir bod hyn wedi'i wneud am fod angen pwerau gwahanol i ddiddymu'r rheoliadau gwahanol. Er hynny, gan fod Rheoliad 1 yn parhau heb ei ddiddymu yn y ddau achos, y mae'n golygu bod dau Offeryn Statudol yn dal i fodoli ond heb unrhyw ddarpariaethau o sylwedd cyfreithiol. Byddai wedi bod yn well i osgoi hyn.

**Rheoliad 2**

Cafodd blwyddyn Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 ei hepgor. Er y gellir cael y flwyddyn yn y troednodyn, nid yw'r troednodiadau yn gyfreithiol yn rhan o'r Rheoliadau.

**Rheoliad 3**

Mae'r un sylw a roddir uchod yn gymwys i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997 yn Rheoliad 3(b).

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**7 Ebrill 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-103